



Mick Antoniw AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Mick.Antoniw@cynulliad.cymru

11 Tachwedd 2019

Annwyl Mick,

Rheoliadau y DU yn gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Hydref ynghylch offerynnau statudol ar gyfer Ymadael â'r UE a phwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, sydd wedi'u hateb isod.

Gallaf gadarnhau fod pob anghydfod gyda Llywodraeth y DU ynghylch materion sydd wedi'u datganoli yn parhau i gael eu trafod yn yr un ffordd. Ym mhob achos, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cysylltu â Gweinidogion Defra, yn nodi ein pryderon, gyda'r trafodaethau'n parhau. O ran y ddau offeryn statudol sydd wedi'u crybwyll gennych, gallaf eich sicrhau eu bod yn cyflawni ein hamcanion polisi cyffredinol o sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn y DU yn gweithio'n effeithiol ac i gynnal y sefyllfa hon.

Rydych hefyd wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol ynghylch effaith y cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol ar y ddau offeryn statudol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu i Glerc eich Pwyllgor gan swyddogion cyn gynted â phosibl.

O ran y pwynt olaf yn eich llythyr, mae'n gywir i nodi pan fo Offerynnau Statudol wedi creu swyddogaethau cydredol ac/neu yr hyn a elwir yn swyddogaethau "cydredol plws", bod hyn yn cael effaith bosibl ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae hyn oherwydd y risg y gallai dileu swyddogaethau o'r fath mewn Deddf gan y Cynulliad olygu gymryd ymlaen ofynion cydsynio yn Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006. O ganlyniad i'r risg a nodir rydym wedi trafod gyda Llywodraeth y DU ac wedi cyrraedd cytundeb mewn egwyddor y byddwn yn mynd i'r afael â'r sefyllfa drwy ddiwygiadau i gymhwysedd deddfwriaethol mewn Gorchymyn a.109; yn benodol, ddiwygiadau i ofynion cydsynio ym mharagraffau 8 ac 11 i Atodlen 7B. Mae'r cytundeb ar gyfer nodi hyn wedi'i ddatgan fel cytundeb mewn egwyddor gan ei fod bellach yn dod gyda'r rhybudd bod y cytundeb hwn yn amodol ar safbwyntiau unrhyw Weinidogion newydd yng ngoleuni'r etholiad sydd wedi'i threfnu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn diddymu'r Senedd, rhannodd Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddrafft y Gorchymyn gyda ni ac rydym wedi darparu ein sylwadau manwl ar y drafft hwnnw. Roedd yn cynnwys elfennau wedi eu nodi o'r gofynion cydsynio fel y cytunwyd arnynt er ein bod yn aros am eu hymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd gennym.

Yn olaf, o ran yr amseru, nid ydym yn gwybod pryd yn union fydd y Gorchymyn hwn yn cael ei wneud gan bod erthyglau penodol o fewn iddo yn dibynnu ar pryd fydd y DU yn ymadael â'r UE ac o dan ba amgylchiadau. Tan i'r sefyllfa ar hyn ddod yn glir, ni fydd unrhyw amserlen yn cael ei chytuno ar gyfer y Gorchymyn hwn. Mae Gorchymyn a.109 yn Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ac yn unol â darpariaethau A109, mae'n rhaid i bob Tŷ Cyffredin a'r Cynulliad gytuno arno cyn i argymhelliad gael ei wneud i'r Frenhines Iunio'r Gorchymyn. Hefyd, mae Rheol Sefydlog 25 yn ei gwneud yn ofynnol i Orchymyn arfaethedig gael ei osod gerbron y Cynulliad i ganiatáu i bwyllgor priodol adrodd arno cyn i'r Gorchymyn drafft yna gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo. Bydd cyfleoedd felly i'r Senedd graffu ar y Gorchymyn hwn cyn iddo gael ei wneud.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at YCwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit.

Yn gywir



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd